

Yr wybodaeth ddiweddaraf am y codiad cyflog

Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL) wedi cyhoeddi ei chylchlythyr ar gyfer 2017/18 am y codiad cyflog i athrawon sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl.

NASUWT yw'r unig undeb sydd wedi esbonio'n glir nad yw mewn sefyllfa i gytuno â'r cylchlythyr fel y mae wedi ei eirio am nad yw'n mynd yn ddigon pell i gyflawni ein disgwyliadau lleiaf ynghylch y codiad cyflog i athrawon.

Mae NASUWT yn disgwyl i'r cyflogwr warantu y bydd yn rhoi codiad cyflog sydd o leiaf yn gyfartal â chynnydd o:

- 2% i bob athro ac athrawes sydd ar y brif ystod cyflog;
- 1% i bob athro ac athrawes sydd ar yr ystod cyflog uwch a'r ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol;
- 1% i bob athro ac athrawes sydd ar yr ystodau cyflog ar gyfer y grŵp arweinyddiaeth a'r grwpiau penaethiaid; ac;
- 1% i bob athro ac athrawes sydd ar yr ystodau lwfans ar gyfer Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD) ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Mae'n destun siom fod y Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi penderfynu cynnig codiad o ddim ond 2% i isafswm ac uchafswm y brif ystod cyflog, a chodiad o ddim ond 1% i gyflogau athrawon sydd ar bob ystod cyflog arall. Nid yw hyn yn cyflawni disgwyliadau lleiaf NASUWT ynghylch y codiad cyflog.

Mae NASUWT wedi ysgrifennu at y cyflogwr i dynnu sylw at y ffaith fod cynnig mor bitw â hyn yn dangos nad yw'r Gymdeithas Llywodraeth Leol o ddifrif ynglŷn ag ymdrin â'r argyfwng o ran recriwtio a chadw staff ar draws y proffesiwn addysgu.

NASUWT yw'r unig undeb sydd wedi gwrthod derbyn cynnig y cyflogwr.

Os yw aelodau NASUWT mewn sefydliadau preswyl wedi derbyn gwybodaeth sy'n dweud yn anghywir fod NASUWT wedi cytuno i dderbyn y codiad cyflog a gynigiwyd ar gyfer 2017/18, dylent roi gwybod am hyn ar unwaith i NASUWT.

Os oes unrhyw aelod o NASUWT sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl heb dderbyn y codiad cyflog sydd wedi'i amlinellu uchod, neu sy'n anfodlon gyda'r ffordd y rheolwyd eu datblygiad cyflog, cysylltwch â NASUWT ar unwaith.

Gweithredu heb Fynd ar Streic

Rydym yn atgoffa ein haelodau y dylent barhau i ddilyn cyngor NASUWT ar y broses o reoli perfformiad ar: **www.nasuwt.org.uk/performance-management**, yn unol â'r cyfarwyddiadau cenedlaethol am weithredu diwydiannol heb fynd ar streic.

Gallwch weld rhagor o fanylion am y gweithredu ar: **www.nasuwt.org.uk/industrialaction**.

Sicrhewch fod holl gyfarwyddiadau cenedlaethol NASUWT am weithredu diwydiannol yn cael eu gweithredu'n llawn yn eich ysgol. I gael rhagor o fanylion ewch i:
www.nasuwt.org.uk/industrialaction.

